# Fframwaith Adfywio Ardal Ni

CYNLLUN ADFYWIO LLEOL

## ARDAL Y BALA A PHENLLYN



Drafft Chwefror 2024


CYNGOR GWYNEDD

# CYFLWYNIAD

# 01

Yn 2021, cytunodd Bwrdd Adfywio Cyngor Gwynedd i ddatblygu Fframwaith Adfywio newydd. Bwriad y Fframwaith yw sicrhau bod camau rhagweithiol yn eu lle er mwyn sicrhau cydweithio i wella'r ardaloedd yn economaidd, yn amgylcheddol, yn gymdeithasol ac yn ddiwylliannol.

Yn rhan o'r Fframwaith hwnnw mae'r sir wedi ei rhannu yn 13 Ardal Adfywio Lleol a chynllun gweithredu wedi ei greu ar gyfer pob un o'r ardaloedd. Dyma'r cynllun gweithredu ar gyfer Ardal Y Bala a Phenllyn.




Ardaloedd Adfywio Lleol: Ardal Bangor, Ardal Dyffryn Ogwen, Ardal Bro Peris, Ardal Caernarfon, Ardal Bro Lleu / Nantlle, Ardal Pen Llŷn, Ardal Pwllheli, Ardal Porthmadog / Penrhyndeudraeth, Ardal Bro Ffestiniog, Ardal Bro Ardudwy, Ardal Bala Penllyn, Ardal Dolgellau ac Ardal Tywyn & Bro Dysynni.

Mae 'Adfywio' wedi ei ddiffinio fel ymdrech fwriadol i wella ardaloedd yn economaidd, yn amgylcheddol, yn gymdeithasol neu yn ddiwylliannol. Pwysleisiwyd hefyd bod rôl allweddol i gymunedau adnabod blaenoriaethau lleol; a chyfraniad sefydliadau lleol mewn datblygu cynlluniau gweithredu.

Wedi proses ymgysylltu yn 2022 a gwrando ar farn pobl lleol, mae'r cynllun yn cynnwys gweledigaeth a blaenoriaethau pob cymuned ar gyfer y dyfodol. Gyda gweithio mewn partneriaeth yn greiddiol i'r cynllun y gobaith yw y bydd yn rhoi trywydd clir i gamau all ddod a newid cadarnhaol i gymunedau fydd yn newid bywydau er gwell. Nod y cynllun felly yw bod yn ganllaw i fuddsoddiad yn lleol yn ogystal â dylanwadu ar benderfyniadau polisi ym mhob maes - o iechyd ac addysg i drafnidiaeth a chynllunio.

# FFRAMWAITH ADFYWIO GWYNEDD

Mae ein Fframwaith Adfywio ar gyfer Gwynedd yn canolbwyntio ar ymdrechion bwriadol i wella ardaloedd yn economaidd, yn amgylcheddol, yn gymdeithasol ac yn ddiwylliannol er mwyn creu cymunedau iach, llewyrchus, deinamig a chynaliadwy gan sicrhau mewnbwn a chyfraniad ystod eang o sefydliadau lleol.

## Gweledigaeth


**Datblygu a chefnogi cymunedau cynaliadwy sy'n iach, llewyrchus ac egniol gyda'r hyder i fentro, a gyda'r awydd a'r gallu i gyfrannu eu hatebion eu hunain i anghenion lleol ac i fanteisio ar gyfleoedd newydd**

## Ein Gwerthoedd

**Cynwysoldeb:** byddwn yn cynnwys rhagor o bobl yn ein gwaith
**Ymddiriedaeth**: byddwn yn parchu ac yn ymddiried yn y bobl rydym yn gweithio gyda nhw
**Cydweithio:** byddwn yn gweithio gyda'n gilydd i gyflawni
**Meddwl am y System Gyfan :** byddwn yn ystyried effaith lawn ein gweithredoedd
**Awydd am Newid  :** byddwn yn herio confensiwn ac yn gweithredu.

## Ein Ffyrdd o Weithio

- Ar sail Asedau: gan adeiladu ar gryfderau'r ardal
- Cyd-berchnogaeth: gan rannu pŵer a'r cyfrifoldeb am ein dyfodol
- Datblygu Parhaus: byddwn bob amser yn ceisio newidiadau cadarnhaol
- Cymuned yn arwain:  byddwn yn gweithredu dan arweiniad y Gymuned




Byddwn yn gweithredu'r Fframwaith Adfywio yn unol â Phum Ffordd o Weithio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015



# GWAITH YMGYSYLLTU 'ARDAL NI' 03

Bwriad ymgyrch ymgysylltu Ardal Ni oedd cynnal sgwrs hefo cymunedau lleol er mwyn adnabod beth sy'n bwysig i drigolion a sut hoffent weld eu hardal yn datblygu dros y 10-15 mlynedd nesaf




Mae ymgynghori ac ymgysylltu gyda phob cymuned wedi bod yn rhan allweddol o lunio'r cynlluniau gweithredu. Roedd tri cham i'r ymgynghori a gynhaliwyd dan faner 'Ardal Ni 2035'

- Cynhaliwyd trafodaeth cychwynnol gyda chynghorau tref a chymuned ynghyd â mudiadau, grwpiau a cynghorwyr lleol gan dderbyn 7 o ymatebion ar syniadau ynglŷn â beth ddylai fod yn flaenoriaethau lleol ar gyfer yr ardal yn y cyfnod hyd at 2035. Defnyddiwyd yr ymatebion yma fel sail ar gyfer yr ail-gam o ymgysylltu ehangach gyda'r cyhoedd.
- Trefnwyd ymgyrch ymgysylltu cyhoeddus er mwyn rhoi cyfle i breswylwyr leisio barn ynglŷn â'r heriau sy'n wynebu eu hardal nhw, yr hyn sy'n bwysig iddyn nhw a pha ddatblygiadau maen nhw am weld yn eu hardal dros y 10 i 15 mlynedd nesaf. Derbyniwyd 201 o ymatebion o Ardal Y Bala a Phenllyn drwy holiadur ar-lein a phapur
- Yn dilyn sesiynau cyhoeddus cynhaliwyd gweithdai gyda sefydliadau i drafod cynlluniau gweithredu gan ganolbwyntio ar y materion a blaenoriaethau oedd wedi eu hadnabod yn lleol.

## Manylion Pellach

Mae gwybodaeth digidol wedi ei osod ar safle we Cyngor Gwynedd :
https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Trigolion/Dweud-eich-Dweud/Canlyniadau/2022/Canlyniadau-Ardal-Ni/Canlyniadau-Arolwg-Ardal-Ni-2035.aspx

Mae manylion pellach ar gael ar gyfer pob un o'r 13 ardal adfywio yn cynnwys

- Asesiadau Ardal (crynodeb ystadegol o'r ardal)
- Adroddiad Trafodaethau Cychwynnol (Cam 1)
- Adroddiad Canlyniadau Ymarferiad Ymgysylltu Cyhoeddus (Cam 2)

Yn unol â'r Gwerthoedd a'r Ffordd o Weithio sydd wedi eu hadnabod, mae'r wybodaeth ac adborth o waith ymgysylltu Ardal Ni wedi ei ddefnyddio wrth adnabod blaenoriaethau sirol a lleol.

# CYNLLUNIAU SIROL A STRATEGOL

04

## Bwrdd Gwasanethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Mon




Cafodd canlyniadau Ardal Ni eu ystyried wrth baratoi asesiadau llesiant ardaloedd lleol. Ar gyfer cynllun 2023-28 tri Amcan Llesiant:

- Lliniaru effaith tlodi ar lesiant ein Cymunedau
- Lles a llwyddiant ein plant a phobl ifanc
- Cefnogi ein cymunedau i symud tuag at Sero Net Carbon.

## Cynllun Cyngor Gwynedd 2023 - 2028

Mae'r cynllun yn cynnwys cyfres o brosiectau ar gyfer y pum mlynedd nesaf o dan saith maes blaenoriaeth




**GWYNEDD YFORY**
Rhoi'r cychwyn gorau posib mewn bywyd i'n plant a'n pobl ifanc

**GWYNEDD LEWYRCHUS**
Cryfhau'r economi a chefnogi trigolion Gwynedd i ennill cyflogau teilwng

**GWYNEDD GLYD**
Cefnogi pobl Gwynedd i fyw mewn cartrefi addas a fforddiadwy yn eu cymunedau

**GWYNEDD OFALGAR**
Cefnogi trigolion Gwynedd i fyw bywydau llawn a diogel yn ein cymunedau

**GWYNEDD GYMRAEG**
Sicrhau ein bod yn rhoi pob cyfle posib i'n trigolion ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned

**GWYNEDD WERDD**
Gwarchod harddwch naturiol y sir, ac ymateb yn gadarnhaol i'r argyfwng newid hinsawdd

**GWYNEDD EFFEITHLON**
Rhoi trigolion Gwynedd yn gyntaf gan eu trin yn deg a sicrhau fod y Cyngor yn perfformio'n effeithiol ac effeithlon

## Cynllun Eryri




Cynllun Rheolaeth Statudol sydd wedi ei ddatblygu gan Awdurdod Parc Cenedlaethol mewn partneriaeth gyda ystod o bartneriaid sydd yn canolbwyntio ar dri maes, sef

**Amgylchedd**
**Iechyd, Lles a Chymunedau**
**Economi Eryri**

## Awdurdodau Cynllunio Lleol

Bydd gwybodaeth yn cael ei ystyried wrth ddatblygu gwaith cychwynnol
- Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd a Mon 2015 - 2026
- Adolygiad o Gynllun Datblygu Lleol Eryri (2016 – 2031)

# ARDAL Y BALA A PHENLLYN HEDDIW







Mae Ardal Y Bala a Phenllyn  wedi ei leoli yn rhan dwyreiniol y Sir, gyda tref Y Bala yn ganolog i'r ardal. Mae'r ardal yn cynnwys cymunedau tref Y Bala, Llandderfel, Llanuwchllyn, Llangywer a Llanycil.

## Crynodeb Ardal Y Bala a Phenllyn mewn ffigurau

### Cryfderau

*Yn cymharu yn well na chyfartaledd Cymru neu Wynedd*

- **84.5 –** disgwyliad oes merched, yn uwch na ffigwr Cymreig o 82.3
- **78.7 –** disgwyliad oes dynion, yn uwch na'r ffigwr Cymreig o 78.3
- **9.9%** - plant 4-5 oed sydd yn ordew sydd yn is na chyfartaledd Cymru o 11.8%
- **1.57 –** (cyfradd fesul 100) ymddygiad gwrthgymdeithasol gofnodwyd gan yr Heddlu sydd yn is na ffigwr Gwynedd o 2.52 a Chymru 2.55
- **84.2%** - canran oedolion gyda chymhwyster sydd yn uwch na chyfartaledd Gwynedd (83%) a Chymru (80%)
- **82%** - canran o'r boblogaeth oedran 26-64 sy'n weithgar economaidd sydd yn uwch na'r ffigwr Cymreig o 75%
- **76%** - sy'n medru siarad Cymraeg sydd yn uwch na'r ffigwr Gwynedd (65%) a Chymru (19%)
- **11%** o bobl mewn amddifadedd incwm sydd yn is na chyfartaledd Gwynedd (13%) a Chymru (16%)

### Gwendidau

*Ddim yn cymharu gystal a chyfartaledd Cymru neu Wynedd*

- **5.7%** swyddi gwerth uchel yn is na Gwynedd (11%) a Chymru (13%)
- **7%** o dai yn gartrefi gwyliau, sydd yn uwch chyfartaledd Cymru (3%) ond llai na chyfartaledd Gwynedd (11%)
- **43%** - y tebygolrwydd o dai mewn cyflwr gwael sydd yn uwch na ffigwr Gwynedd (29%) a Chymru (19%)

*Ffynhonnell : Adroddiad Ymgynghoriaeth Burum 2021. Noder fod data wedi ei addasu oherwydd gwahaniaethau rhwng ffiniau rhai ardaloedd adfywio a ffiniau ffynonellau data)*

## Barn Trigolion am yr ardal

### Beth sydd yn dda am yr ardal ?

- Yr Amgylchedd naturiol ac agosatrwydd at fynyddoedd, Llyn Tegid a chefn gwlad (140)
- Lle da i fagu teulu (121)
- Yr iaith Gymraeg a'r diwylliant (119)
- Ysbryd a chyfeillgarwch cymunedol (97)
- Gwasanaeth a darpariaeth iechyd a gofal da yn lleol (88)
- Gallu'r ardal i ddenu twristiaeth er budd economaidd (82)
- Darpariaeth addysg ac ysgolion da (68)
- Cynnyrch a busnesau lleol yn yr ardal (40)

*(Ffynhonnell : Ymatebion Ardal ni y Bala a Phenllyn. Nifer o ymatebion wedi eu derbyn mewn cromfachau)*


### Beth sydd yn ddim dda am yr ardal ?

- Diffyg tai addas a fforddiadwy i bobl leol i'w prynu neu'u rhentu (119)
- Diffyg swyddi cyflog uchel a llawn amser (100)
- Nifer uchel o ail dai a tai haf yn yr ardal (95)
- Pellter daearyddol o gyfleusterau a gwasanaethau (73)
- Mae'r rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus yn yr ardal yn annigonol (70)
- Camddefnyddio cyffuriau ac alcohol (70)
- Rhwystrau o fewn y maes cynllunio a datblygiadau adeiladu (61)
- Mae pryder yn ymwneud a pharcio mewn nifer o leoliadau (46)
- Band eang / cysylltiad we wael (45)
- Dim angerdd nac arweiniad yn lleol er mwyn newid (42)
- Pryderon am effaith twristiaeth ar yr amgylchedd leol (40)

# ARDAL Y BALA A PHENLLYN YMHEN 15 MLYNEDD

06

Mae'r rhestr isod yn dangos ymatebion a dderbyniwyd yn ystod ymgynghoriad cyhoeddus 'Ardal Ni'. Mae'r materion wedi eu gosod yn ôl y nifer o ymatebion a dderbyniwyd, gyda'r materion a rhestrir gael eu hadnabod gan o leiaf 1 allan o 5 ymateb



## Prif faterion lleol wedi eu hadnabod yn ystod gwaith Ardal Ni

### Pa newidiadau fyddech chi'n dymuno eu gweld yn digwydd yn ardal Y Bala a Phenllyn dros y 15 mlynedd nesaf fyddai'n gwneud yr ardal yn lle gwell i fyw ynddi?

| Ranc | Prif Faterion / Blaenoriaethau | Nifer |
|---|---|---|
| 1 | Cynlluniau i sicrhau tai sy'n addas i anghenion bobl leol | 96 |
| 2 | Cynlluniau i gynnal a datblygu llwybrau cyhoeddus a llwybrau beicio a datblygu llecynnau gwyrdd | 94 |
| 3 | Datblygu cynlluniau i gwrdd ag anghenion pobl ifanc yr ardal | 91 |
| 4 | Cynlluniau i gefnogi busnesau a mentrau lleol a hyrwyddo cynnyrch lleol byddai hefyd yn denu mwy o fusnesau fydd yn creu swyddi gwerth uchel i'r ardal | 71 |
| 5 | Cynlluniau i ddatblygu rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus lleol sy'n hygyrch, integredig ac addas i anghenion yr ardal | 70 |
| 6 | Ardal yn fwy gwyrdd - ynni adnewyddol, lleihau'r defnydd o blastig, pwyntiau gwefru ceir, cynlluniau plannu coed ac ati | 70 |
| 7 | Cynllun Twristiaeth Gynaliadwy effeithiol i gael gwell rheolaeth ar dwristiaeth a gwneud y mwyaf o'r potensial economaidd i bobl leol | 64 |
| 8 | Cynlluniau a chefnogaeth i weithgareddau sy'n hyrwyddo'r iaith Gymraeg a'r diwylliant ac sy'n cefnogi dysgwyr yr iaith | 49 |
| 9 | Cynlluniau i warchod y diwydiant amaeth yn yr ardal | 47 |
| 10 | Uwchraddio is-adeiledd band eang | 45 |
| 11 | Cynlluniau i hwyluso'r broses o alluogi cymunedau i gymryd rheolaeth o'u asedau lleol eu hunain er mwyn cyfarch anghenion yr ardal | 41 |

# CYNLLUN GWEITHREDU



Rhagwelir y bydd cyfle i adolygu trefniadau cydweithio rhwng sefydliadau gweithredol yn yr ardal. Drwy weithio mewn partneriaeth bydd cyfle i gyd-lynu gweithgareddau isod, ac i ymateb i fylchau drwy gynllunio gweithgareddau ychwanegol

| Prif Fater | Rhif | Prosiect | Arwain | Partneriaid | Statws | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **B1. Cynlluniau i sicrhau tai sy'n addas i anghenion bobl leol** | 1.1 | Cynllun Gweithredu Tai Cyngor Gwynedd | Cyngor Gwynedd | Partneriaid Tai Gwynedd, Llywodraeth Cymru, Trydydd Sector | Gweithredol | Bl 1-5 |
| | 1.2 | Cynllun pryniant Swn y Gwynt | Menter Gymunedol Llanuwchllyn | Cyngor Gwynedd. Cyngor Cymuned Llanuwchllyn. | Datblygol | Bl 1-2 |
| | 1.3 | Cynllun prynu Ty Capel Cynllwyd | Elusen Maurice Vaughan | Cyngor Cymuned Llanuwchllyn | Datblygol | Bl 1-2 |
| **B2. Cynlluniau i gynnal a datblygu llwybrau cyhoeddus a llwybrau beicio a datblygu llecynnau gwyrdd** | 2.1 | Cwlbhau Llwybr Tegid - llwybr o'r Bala i Llanuwchllyn | Cyngor Gwynedd / Parc Cenedlaethol Eryri / Asiantaeth Cefnffyrdd | Urdd Gobaith Cymru, Cyngor Cymuned Llanuwchllyn | Datblygol | Bl 1-2 |
| | 2.2 | Llwybr Troed o Frongoch i Bala | Parc Cenedlaethol Eryri | Cyngor Cymuned Llandderfel | Datblygol | Bl 3-5 |
| **B3. Datblygu cynlluniau i gwrdd ag anghenion pobl ifanc yr ardal.** | 3.1 | Datblygu cyfleusterau Canolfan Bro Tegid ar gyfer pobl ifanc | Cwmni Pum Plwy Penllyn | Cyngor Tref y Bala | Datblygol | Bl 3-5 |
| | 3.2 | Datblygu cyfleusterau a gweithgareddau i blant a phobl ifanc Llandderfel | Pwyllgor Cae Chwarae Llandderfel | Cyngor Cymuned Llandderfel | Datblygol | Bl 1-2 |
| | 3.3 | Datblygu Canolfan Weithgareddau dan Do Gwersyll Glan-llyn | Urdd Gobaith Cymru. | | Datblygol | Bl 1-2 |
| | 3.4 | Datblygu Cyfleusterau Pafiliwn Chwaraeon y Bala | Cymdeithas Chwaraeon y Bala a Phenllyn | Cyngor Tref y Bala | Datblygol | Bl 1-2 |

# CYNLLUN GWEITHREDU (PARHAD)



Rhagwelir y bydd cyfle i adolygu trefniadau cydweithio rhwng sefydliadau gweithredol yn yr ardal. Drwy weithio mewn partneriaeth bydd cyfle i gyd-lynu gweithgareddau isod, ac i ymateb i fylchau drwy gynllunio gweithgareddau ychwanegol

| Prif Fater | Rhif | Prosiect | Arwain | Partneiriad | Statws | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 3.5 | Prosiect creu porch i Neuadd Gywair | Pwyllgor Neuadd Gywair | | Gweithredol | Bl 1-2 |
| **B4. Cynlluniau i gefnogi busnesau a mentrau lleol a hyrwyddo cynnyrch lleol fyddai hefyd yn denu mwy o fusnesau fydd yn creu swyddi gwerth uchel i'r ardal.** | 4.1 | Menter yr Eagles – datblygiad tafarn gymunedol a datblygiad Eglwys Llanuwchllyn fel ased i'r gymuned | Menter Gymunedol Llanuwchllyn | Cyngor Cymuned Llanuwchllyn | Datblygol | Bl 1-2 |
| | 4.2 | Datblygu Gŵyl Fwyd y Bala i ychwanegu gwerth at gynnyrch lleol. | Cwmni Pum Plwy Penllyn | Cyngor Tref y Bala. | Datblygol | Bl 1-2 |
| | 4.3 | Prosiect y Ddraig Goch | Rheilffordd Llyn Tegid | | Datblygol | Bl 3-5 |
| | 4.4 | Cynllun Celf Canol Trefi | Cyngor Tref Y Bala | Cyngor Gwynedd | Datblygol | Bl 1-2 |
| | 4.5 | Cynllun 'creu lle' Tref y Bala | Cyngor Tref Y Bala | Cyngor Gwynedd | Rhagbaratoi | Bl 1-2 |

# CYNLLUN GWEITHREDU (PARHAD)



Rhagwelir y bydd cyfle i adolygu trefniadau cydweithio rhwng sefydliadau gweithredol yn yr ardal. Drwy weithio mewn partneriaeth bydd cyfle i gyd-lynu gweithgareddau isod, ac i ymateb i fylchau drwy gynllunio gweithgareddau ychwanegol

| Prif Fater | Rhif | Prosiect | Arwain | Partneiriad | Statws | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **B5. Cynlluniau i ddatblygu rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus lleol sy'n hygyrch, integredig ac addas i anghenion lleol.** | 5.1 | Cynllun Trafnidiaeth Gymunedol | Cwmni Pum Plwy Penllyn | Cyngor Gwynedd | Rhagbaratoi | Bl 1 -2 |
| | 5.2 | Tref Gyfeillgar y Bala | Cyngor Tref | Cyngor Gwynedd | Rhagbaratoi | Bl 1-2 |
| | 5.3 | Gwynedd Werdd – Trafnidiaeth Cyhoeddus | Cyngor Gwynedd | Llywodraeth Cymru, Trafnidiaeth Cymru a Darparwyr | Cynllun Sirol - rhagbaratoi | Bl 1-2 |
| **B6. Ardal yn fwy gwyrdd - ynni adnewyddol, lleihau'r defnydd o blastig, pwyntiau gwefru ceir, cynlluniau plannu coed ac ati.** | | | | | | |
| **B7. Cynllun Twristiaeth Gynaliadwy effeithiol i gael gwell rheolaeth ar dwristiaeth a gwneud y mwyaf o'r potensial economaidd i bobl leol** | 7.1 | Cynllun Economi Ymweld Gynaliadwy Lleol | Cyngor Gwynedd | APCE, Sefydliadau lleol | Gweithredol | Bl 1-2 |
| **B8. Cynlluniau a chefnogaeth i weithgareddau sy'n hyrwyddo'r iaith Gymraeg a'r diwylliant ac sy'n cefnogi dysgwyr yr iaith** | 8.1 | Datblygu cyfleusterau ac adnoddau Neuadd y Parc | Pwyllgor Neuadd y Parc | Cyngor Cymuned Llanycil | Datblygol | Bl 3-5 |
| | 8.2 | Datblygu ac uwchraddio Neuadd Maesywaun | Pwyllgor Neuadd Maesywaun | Cyngor Cymuned Llanycil | Rhagbaratoi | Bl 1-2 |
| | 8.3 | Dehongli Treftadaeth Penllyn (byrddau gwybodaeth Bob Roberts) | Cantref | Cynghorau Tref a Chymuned | Rhagbaratoi | Bl 1-2 |

# CYNLLUN GWEITHREDU (PARHAD)



Rhagwelir y bydd cyfle i adolygu trefniadau cydweithio rhwng sefydliadau gweithredol yn yr ardal. Drwy weithio mewn partneriaeth bydd cyfle i gyd-lynu gweithgareddau isod, ac i ymateb i fylchau drwy gynllunio gweithgareddau ychwanegol

| Prif Fater | Rhif | Prosiect | Arwain | Partneiriad | Statws | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 8.5 | Datblygu a chefnogi Theatr Derek Williams | Theatr Derek Williams | Cyngor Tref y Bala | Datblygol | Bl 1-2 |
| | 8.6 | Cefnogi papur wythnosol y Cyfnod i fod yn gynaliadwy | Cwmni Pum Plwy Penllyn | | Datblygol | Bl 1-2 |
| | 8.7 | Cofeb Tryweryn | Pwyllgor Cofeb Tryweryn | Ymgyrch genedlaethol | Datblygol | Bl 1-2 |
| **B9. Cynlluniau i warchod y diwydiant amaeth yn yr ardal.** | 9.1 | Ymgyrch Prynu'n Lleol | Cyngor Gwynedd | Llywodraeth DU | Gweithredol | Bl 1-2 |
| **B10. Uwchraddio Is-adeiledd band eang** | 10.1 | Cynllun 'Yr Ychydig % Olaf' | Uchelgais Gogledd Cymru | Cyngor Gwynedd, Llywodraethau Cymru & DU | Rhagbaratoi | Bl 3-5 |
| | 10.2 | Cynllun Grant Allwedd Bandeang Cymru | Llywodraeth Cymru | | Rhagbaratoi | Bl 3-5 |
| | 10.3 | Darparu bandeang cyflym iawn : Cyfnewidfa Y Bala | Openreach Cyf | Cyngor Gwynedd | Gweithredol | Bl 2-4 |
| **B11. Cynlluniau i gryfhau'r ddarpariaeth gofal i bobl hyn a phobl fregus.** | 11.1 | Hwb Cefnogi Pobl | Cyngor Gwynedd | Cwmni Pum Plwy Penllyn | Gweithredol | Bl 1-2 |
| | 11.2 | Tref Gyfeillgar a Hygyrch y Bala | Cyngor Tref y Bala | Cyngor Gwynedd | Datblygol | Bl 1-2 |
| | 11.3 | Gwynedd Oed Gyfeillgar (Cynllun Sirol) | Cyngor Gwynedd | Ystod o sefydliadau a grwpiau | Datblygol | Bl 1-2 |

# CYDLYNU A MONITRO

Bwriad y Cynllun Gweithredu yw ymgorffori prosiectau a gweithgaredd ystod eang o sefydliadau sy'n cyfrannu at adfywio a gwella ardal Bala a Phenllyn. Mae hon yn ddogfen fyw, a bydd yn cael ei diweddaru o bryd i'w gilydd.

Fel rhan o'r Fframwaith Adfywio, bydd trefniadau ar gyfer monitro a chydlynu'r rhaglen waith yn cael eu sefydlu yn Bala a Phenllyn, gan ystyried strwythurau a threfniadau cydweithio presennol.

Bydd adroddiad blynyddol byr yn cael ei baratoi gan gynnwys diweddariad ar y cynllun gweithredu a'r holl brosiectau cysylltiedig, ac unrhyw gynnydd yn ystod y cyfnod.




Diolch am gyfraniadau cynrychiolwyr o sefydliadau lleol yn cynnwys :

- Cyngor Cymuned Llanuwchllyn
- Cyngor Cymuned Llandderfel
- Cyngor Cymuned Llanycil
- Cyngor Cymuned Llangywer
- Canolfan Henblas Y Bala
- Canolfan Deulu Y Bala
- Pwyllgor Neuadd Y Parc
- Clwb Rygbi Y Bala
- Gwersyll yr Urdd Glan Llyn
- Theatr Derek Williams
- Pwyllgor Neuadd Maesywaun
- Clwb hoci Y Bala
- Cantref
- Rheilffordd Llyn Tegid
- Menter yr Eagles
- Cymdeithas Chwaraeon Y Bala
- Pwyllgor Parc Heol y Castell
- Pwyllgor adloniant Llandderfel
- Cwmni Pum Plwy Penllyn
- Cyngor Tref Y Bala
- Pwyllgor Neuadd Llanuwchllyn
- Pwyllgor Neuadd Gywair
- Pwyllgor Neuadd Derfel